



## Ysgol Pentreuchaf

### 140. Polisi Trefniadaeth Dosbarth

#### Nod

Trefnu'r dosbarth er mwyn hyrwyddo'r addysg mwyaf effeithiol a cheisio meithrin annibyniaeth a hunan-ddisgyblaeth yn y plant.

#### Amcanion

1. Creu awyrgylch symbylus i hybu datblygiad pob plentyn.
2. Sicrhau gweithgareddau amrywiol wedi eu trefnu'n ofalus gan yr athro/athrawes.
3. Sicrhau bod y trefniadaeth yn galluogi'r athrawon i weithio'n hyderus a threfnus gan roi'r sylw dyledus i bob plentyn yn ei dro.
4. Meithrin y plant i fod yn gyfrifol am drefn a thaclusrwydd eu dosbarth a'r ysgol yn gyffredinol.
5. Dylem fod yn ymwybodol o lefel sŵn o fewn dosbarthiadau gan gofio fod rhywfaint o siarad a thrafodaeth yn bwysig, ond fod gormod o sŵn yn rhwystro rhai plant rhag canolbwyntio a sgwrsio gyda'i gilydd neu'r athro/athrawes.

#### Canllawiau

1. Rhaid gwneud yn siwr fod y plant yn gyfarwydd gyda'r trefniadau, a bod adnoddau ar gael yn hwylus iddynt. Dylai adnoddau a chyfarpar fod wedi eu labelu'n glir (lle mae hynny'n briodol).
2. Dylai'r plant gael eu meithrin yn gyson, trwy'r ysgol, i fod yn gyfrifol am drefn a thaclusrwydd eu hystafell dodosbarth.
3. Ceisio amrywio'r dulliau dysgu e.e. dosbarth cyfan, fel/mewn grwpiau (oedran, cyfeillgarwch, gallu a.y.y.b.), paru, unigolion.
4. Sicrhau cyfarpar a chefnogaeth o fewn y dosbarth fel bo'r angen. Gwneud y defnydd gorau o gymorthyddion o fewn trefn y dosbarth.
5. Trefnu lle addas i gymorthyddion a gwirfoddolwyr weithio gydag unigolion neu grwpiau bychain o blant.
6. Gellir defnyddio mesurydd amser a goleuadau traffig i ddatblygu dealltwriaeth y disgyblion o derfynau amser ac i hyrwyddo eu gallu i gynllunio eu gwaith eu hunain.
7. Bydd y pynciau craidd yn cael sylw dyddiol/wythnosol e.e. datblygu sgiliau llythrennedd / rhifedd yn ddyddiol (yn rhan o wersi Iaith a Mathemateg ond hefyd yn Drawsgwricwlaidd) ond ar adegau bydd rhai o'r pynciau sylfaen yn cael mwy o sylw nag eraill. Dros dymor a blwyddyn, bydd cydbwysedd i'r holl feysydd.
8. Dylai'r athrawon sicrhau fod y disgyblion yn cael eu hannog i ddefnyddio'n gyfrifol unrhyw amser sbâr sydd ganddynt a bod gweithgareddau addas ar gael iddynt.
9. Arwain ac annog y disgyblion i ddod yn fwyfwy cyfrifol am eu dysgu eu hunain, i weithredu'n annibynnol lle bo hynny'n briodol, ac i gyflawni rhai tasgau heb orfod dibynnu ar eu hathro neu athrawes am arweiniad.
10. Sicrhau fod disgwyliadau athrawon a chymorthyddion trwy'r ysgol yn gyson o ran meithrin annibyniaeth yn y plant, annog plant i fod yn gyfrifol am agweddau ar eu gwaith, trefn gofod, amser ac adnoddau.

#### Casgliad

Mewn ysgol mae dosbarthiadau yn cynnwys plant o oedran, gallu a gallu ieithyddol cymysg sy'n creu problemau unigryw. Mae trefniadaeth llwyddiannus yn golygu cynllunio lleoliad adnoddau a dodrefn ynghyd â rheolau cymdeithasol o fewn dosbarth syn annog plant i gydweithio fel aelodau o'r dosbarth yn hwylus.

**Adolygir: Chwefror 2017**

**Arwyddwyd: \_\_\_\_\_, Cadeirydd y Llywodraethwyr**

**Dyddiad: \_\_\_\_\_**